

Eich Canllaw i Gynlluniau Datblygu Unigol

Os ydych chi angen cymorth ychwanegol yn yr ysgol, gall hyn olygu fod gyda chi Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY).

Mae angen cymorth dysgu ychwanegol ar blant a phobl ifainc ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY). Gall hyn fod oherwydd bod gyda chi anhawster dysgu neu anabledd.

Rydych chi'n ei chael hi'n fwy anodd dysgu na phlant a phobl ifainc eraill yr un oed â chi.

Os oes gyda chi ADY bydd gyda chi Gynllun Datblygu Unigol (CDU).





Beth sydd yn y Cynllun Datblygu Unigol (CDU)?

- Eich enw a'ch oed
- Ble rydych chi'n byw
- Ble rydych chi'n mynd i ddysgu
- Sut rydych chi'n cyfathrebu e.e iaith arwyddion, yn ddwyieithog
- Pwy sy'n edrych ar ôl eich CDU
- Beth sy'n gweithio'n dda a ddim yn gweithio'n dda i chi
- Beth yw eich Anghenion Dysgu Ychwanegol
- Pa ddarpariaeth fyddwch chi'n ei chael i'ch helpu chi
- Achlysuron pwysig yn eich bywyd
- Os ydych chi'n berson ifanc (16 oed neu'n hŷn) bydd rhywun yn gofyn a ydych chi'n cytuno i gael CDU



Sut rydw i'n cael Cynllun Datblygu Unigol (CDU)?

Bydd yr Ysgol neu'r Coleg yn ysgrifennu'ch cynllun fel arfer.

Weithiau bydd yr Awdurdod Lleol (ALL) yn ysgrifennu'r cynllun. Gall hyn fod oherwydd bod gyda chi lawer o anghenion cymorth.

Bydd yr Ysgol, y Coleg neu'r ALL yn gofyn i'r bobl gywir am wybodaeth. Mae hyn yn helpu o ran ysgrifennu'r cynllun.



Pa mor hir y bydd hynny'n ei gymryd?

Os yw'r Ysgol neu'r Coleg yn ysgrifennu'r CDU, gall gymryd 7 wythnos

Os yw'r Awdurdod Lleol (ALL) yn ysgrifennu'r CDU, gall gymryd 12 wythnos.



Ga i newid y cynllun?

Rhaid adolygu'r cynllun o fewn blwyddyn neu yn gynt na hynny os oes rhywbeth wedi newid yn eich bywyd.

Mae adolygiad yn golygu edrych ar y cynllun eto i sicrhau ei fod yn dal yn iawn i chi ac a oes angen newidiadau.



Beth os dydw i ddim yn hapus â'r cynllun?

Os dydych chi ddim yn hapus â'r cynllun mae'r ysgol wedi'i ysgrifennu, gallwch chi ofyn i'r Awdurdod Lleol (ALL) wirio a yw'n iawn i chi.

Bydd gyda nhw 7 wythnos i feddwl a yw'r cynllun yn iawn neu byddan nhw'n ysgrifennu un newydd.



Dwi angen help!

Gall ffrind achos eich helpu chi.

Gall ffrind achos fod yn ffrind agos, aelod o'r teulu, gweithiwr cymdeithasol neu athro.



Beth os ydw i'n anghytuno â'm cynllun?

Rhaid i'r Ysgol, y Coleg neu'r ALL geisio helpu a datrys yr anghytundeb yn gyflym.

Os oes angen help arnoch chi i ddatrys anghytundeb, gallwch chi:

- Siarad â'r Pennaeth neu athro yn yr ysgol
- Edrych ar-lein **www.rctcbc.gov.uk**
- Ffonio ein Swyddog Cyswllt Teuluoedd ar **01443 744344**



Os does dim modd datrys anghytundeb, gallwch chi gael help gan eiriolwr

Mae eiriolwr yn rhywun sy'n siarad ar ran rhywun arall.

Gallan nhw sicrhau bod pobl yn gwybod beth yw'ch teimladau.

Manylion cyswllt:

Llinell gymorth: 0808 801 0608

☎ 02920 348 990

✉ [ymholiadau@snapcymru.org](mailto:yholiadau@snapcymru.org)



Gallwch chi ofyn i Dribiwnlys Addysg Cymru ddelio ag anghytundebau o ran eich cynllun.

Os dydy'r Ysgol, y Coleg neu'r ALL ddim wedi gallu datrys eich anghytundeb yna gallwch chi ofyn am help gan Dribiwnlys Addysg Cymru.

Mae Tribiwnlys Addysg Cymru yn grŵp arbennig o bobl sy'n delio ag anghytundebau yn rhan o'u gwaith.

Bydd angen i'r Tribiwnlys wybod pam dydych chi ddim yn hapus a pham rydych chi'n meddwl bod yr ALL yn anghywir.

Yr enw ar hyn yw apêl.

Bydd y Tribiwnlys yn edrych ar wybodaeth gan eich teulu, yr ALL a gennyh chi, ac yna'n dod i benderfyniad. Rhaid i bawb barchu'r penderfyniad.

Manylion cyswllt Tribiwnlys Addysg Cymru:

☎ 0300 025 9800

✉ Tribunal.Enquiries@gov.wales



Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) neu ALNET

Cyfraith newydd sy'n newid y ffordd mae disgyblion ag ADY yn cael eu cefnogi.



Datrys Anghytundeb

Mae pawb sy'n rhan o'r anghytundeb yn cwrdd er mwyn cytuno ar ffordd ymlaen.



Lle i roi fy meddyliau ar bapur...

A series of 15 horizontal dotted lines for writing.